Adroddiad ar

Caban Aur

Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Caban Aur

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Caban Aur |
| Statws y perchennog | Mae Ysgol Caban Aur yn rhan o Afon Goch Children's Homes Limited, sef cwmni preifat cyfyngedig |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Ysgol arbenigol ADY annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 1 |
| Dyddiad ymweliad blaenorol Estyn | 26/06/2023 |
| Dyddiad dechrau'r ymweliad | 12/02/2025 |

Cyd-destun yr ysgol:

Mae Ysgol Caban Aur yn ysgol annibynnol fach sydd wedi'i lleoli ar ei thir ei hun, mewn lleoliad gwledig ar Ynys Môn, a amgylchynir gan warchodfa natur.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru ar gyfer hyd at ddau ddisgybl rhwng 11 ac 16 mlwydd oed sydd ag ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae un disgybl ar y gofrestr ar hyn o bryd.

Mae darpariaeth ddysgu ychwanegol yr ysgol yn cynnwys ymyriadau therapiwtig unigol, dosbarthiadau o faint bach iawn, cymhareb uchel staff i ddisgyblion, cwricwlwm teilwredig a dysgu cymdeithasol ac emosiynol rheolaidd trwy weithgareddau fel addysg awyr agored.

Adeg yr ymweliad monitro ym mis Mehefin 2022, nid oedd yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Safonau 1 a 3 Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru); Ansawdd yr addysg a ddarperir a Lles, iechyd a diogelwch disgyblion. Ymwelodd arolygwyr â'r ysgol ym mis Mehefin 2023 i gynnal ymweliad monitro pellach. Pan gyrhaeddodd arolygwyr yr ysgol, nid oedd unrhyw ddisgyblion ar y gofrestr. O ganlyniad, nid oedd modd arolygu agweddau ar ddiffyg cydymffurfio o ymweliad 2022. Fodd bynnag, roedd yr ysgol wedi

gwneud cynnydd cyfyngedig yn erbyn yr argymhellion o arolygiad 2022, a nodwyd meysydd ychwanegol o ddiffyg cydymffurfio.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r ysgol lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad i fynd i'r afael â'r meysydd diffyg cydymffurfio. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, roedd yn ofynnol i'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodir isod ar gyfer pob safon:

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Mae'r perchennog yn sicrhau bod polisi ysgrifenedig ar gwricwlwm yr ysgol annibynnol, wedi'i gefnogi gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, sy'n darparu ar gyfer y materion a nodir yn is-baragraff (2) yn cael ei lunio a'i roi ar waith yn effeithiol, [2(a)(a)]

Mae'r polisi, y cynlluniau a'r cynlluniau gwaith ysgrifenedig; yn ystyried oedrannau, doniau ac anghenion pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny sydd â chynllun datblygu unigol neu ddatganiad, nid ydynt yn tanseilio gwerthoedd sylfaenol democratiaeth, rheol y gyfraith, rhyddid yr unigolyn, a pharch ar y ddwy ochr a goddefgarwch o'r rhai sydd â gwahanol ffydd a chredoau, ac yn ystyried yr egwyddorion yn Rhan 1 y Confensiwn [2(1)(b)]

Addysg amser llawn dan oruchwyliaeth ar gyfer pob disgybl o oedran ysgol gorfodol, sy'n rhoi profiad i ddisgyblion yn y meysydd canlynol: iaith, cyfathrebu, mathemateg, gwyddoniaeth, technoleg, y dyniaethau, iechyd, lles a'r celfyddydau mynegiannol, [2(2)(a)]

Mae'r perchennog yn sicrhau bod disgyblion yn caffael medrau mewn siarad, gwrando, llythrennedd a rhifedd [2(2)(b)]

Addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd sy'n adlewyrchu nodau ac ethos ysgol annibynnol, ac yn annog parch am bobl eraill, gan roi ystyriaeth benodol i'r nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Neddf 2010 [2(2)(d)]

Mae'r perchennog yn sicrhau bod cwricwlwm yr ysgol yn darparu'r cyfle i bob disgybl ddysgu a gwneud cynnydd, gan gynnwys darparu cyfleoedd gwahaniaethol, lle bo'n briodol, ac i) paratoi disgyblion yn effeithiol ar gyfer y cyfleoedd, y cyfrifoldebau a'r profiadau mewn bywyd fel oedolyn [2(2)(h)]

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Mae'r perchennog yn sicrhau bod: trefniadau'n cael eu gwneud i ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion yn yr ysgol annibynnol, polisi ysgrifenedig i ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion yn cael ei lunio a'i roi ar waith yn effeithiol, a bod y

trefniadau hynny a'r polisi hwnnw yn ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. [6]

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Rhaid i ysgol annibynnol ddarparu'r canlynol i rieni disgyblion a rhieni darpar ddisgyblion, ac ar gais i'r Prif Arolygydd, Gweinidogion Cymru, neu gorff sydd wedi'i gymeradwyo o dan adran 163(1)(b) Deddf 2002:

- cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn yr ysgol annibynnol, ac enw'r pennaeth [28(2)(a)]
- pan fo'r perchennog yn unigolyn, (aa) enw llawn, (bb) cyfeiriad e-bost busnes uniongyrchol, (cc) rhif ffôn yr unigolyn hwnnw (yn ystod y tymor a'r tu allan i'r tymor), (dd) cyfeiriad gohebu (yn ystod y tymor a'r tu allan i'r tymor), [28(2)b]
- manylion am bolisi a threfniadau'r ysgol annibynnol ar gyfer derbyn, disgyblu a gwaharddiadau; [28(2)e]
- manylion am y polisïau a baratowyd o dan Ran 1 yr Atodlen hon, [28(3)(a)]
- manylion am y polisïau a baratowyd o dan Ran 3 yr Atodlen hon, [28(3)(b)]
- manylion am berfformiad academaidd yr ysgol annibynnol yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, gan gynnwys canlyniadau unrhyw arholiadau ac asesiadau cyhoeddus sy'n arwain at gymhwyster, [28(3)(c)]
- manylion am y weithdrefn gwyno, a nifer y cwynion a gofrestrwyd o dan y weithdrefn ffurfiol yn ystod y flwyddyn ysgol, [28(3)(d)]
- nifer y staff a gyflogir yn yr ysgol annibynnol, gan gynnwys staff dros dro, a chrynodeb o'u cymwysterau, [28 (3)(e)]
- dyddiadau tymhorau ar gyfer— (i) y flwyddyn academaidd bresennol, a (ii) y flwyddyn academaidd ddilynol, [28(3)(f)]
- dyddiadau unrhyw gynlluniau i gau yn ystod dyddiadau'r tymhorau y trefnwyd eu bod ar gael o dan baragraff (f). [28(3)(g)]

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Mae'r perchennog yn sicrhau bod y weithdrefn gwyno ar gael ar wefan yr ysgol annibynnol, neu pan nad oes gan yr ysgol annibynnol wefan, caiff ei darparu i ddisgyblion, rhieni disgyblion a darpar ddisgyblion yn yr ysgol annibynnol [29(b)]

Ymwelodd tîm o AEF â'r ysgol ym mis Tachwedd 2023, mis Mawrth 2024 a mis Mehefin 2024 i drafod cynnydd yr ysgol yn erbyn ei chynllun gweithredu. Ar ôl hynny, ymwelodd AEF â'r ysgol ym mis Chwefror 2025 i werthuso cydymffurfiad yr ysgol â'r safonau nad oedd yn cydymffurfio â nhw o'r blaen.

## Prif ganfyddiadau

Ers yr ymweliad monitro diwethaf yn 2023, mae arweinwyr a staff wedi gweithio’n ddiwyd i gryfhau darpariaeth yr ysgol. Mae staff yn dangos synnwyr cryf o ddiben ac yn cydweithio’n effeithiol i hyrwyddo addysg a lles disgyblion. Fodd bynnag, mae anghysondebau mewn staffio a datblygiad cynnar llawer o bolisïau a gweithdrefnau yn rhwystro gallu’r ysgol i ymgorffori gwelliannau diweddar yn llawn.

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer disgyblion iau, a gefnogir gan gynlluniau gwaith priodol. Mae profiadau dysgu wedi’u hamserlennu yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes gan y tîm staff presennol y gallu i gyflwyno cwricwlwm llawn hyd at lefel TGAU.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o weithgareddau addysgol, gan gynnwys addysg awyr agored, sy’n cefnogi eu datblygiad personol a chymdeithasol yn dda. Megis dechrau ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) yn ei chwricwlwm y mae’r ysgol.

Mae bron pob un o’r staff yn datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol â disgyblion o ganlyniad i’w dealltwriaeth o’u galluoedd a’u cyd-destunau. Nodweddir eu rhyngweithio â disgyblion gan amynedd a pharch. Mae athrawon yn fodelau effeithiol o ymddygiad pwyllog a chyfathrebu clir. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu â’u dysgu ac yn dangos awydd clir i lwyddo.

Mae cyflwyno fframwaith asesu strwythuredig yn gwella gallu’r ysgol i olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, er bod arweinwyr wedi mireinio systemau olrhain, nid ydynt wedi gwerthuso effaith lawn y cwricwlwm newydd ar gynnydd disgyblion eto. Mae gweithredu asesiadau gwaelodlin a ffurfiannol yn parhau, ac mae angen mwy o waith i ymgorffori’r prosesau hyn yn llawn.

Mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth fynd i’r afael â diffyg cydymffurfio yn ystod yr ymweliad monitro diwethaf. Maent wedi buddsoddi’n sylweddol mewn adnoddau ac amgylcheddau ystafell ddosbarth, gan ymestyn y profiad dysgu cyffredinol. Maent hefyd wedi cryfhau cyfathrebu â rhanddeiliaid, gan sicrhau bod polisïau a gwybodaeth allweddol ar gael yn hygyrch, er enghraifft trwy’r wefan newydd, addysgiadol.

Mae arweinwyr wedi diweddaru polisïau diogelu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac mae pob un o’r staff addysg wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac Atal sylfaenol. Fodd bynnag, megis dechrau rhoi cynllun hyfforddi ffurfiol ar waith y mae’r ysgol i sicrhau cydymffurfiad parhaus â diogelu a dyletswydd Atal ar gyfer y tîm staff ehangach.

Mae arweinwyr wedi cyflwyno cyfleoedd rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol, fel arsylwadau gwersi ac arsylwadau cymheiriaid. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran y mentrau hyn, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'u heffaith. Yn ychwanegol, mae anghysondebau staffio ac absenoldeb pennaeth parhaol yn creu heriau o ran cynnal sefydlogrwydd a sicrhau gwelliant cynaliadwy a thymor hir.

Mae Ysgol Caban Aur wedi gwneud cynnydd ystyrlon ac nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r Safonau Ysgolion Annibynnol. Fodd bynnag, mae angen datblygiad pellach i sicrhau sefydlogrwydd a chysondeb tymor hir mewn darpariaeth addysgol.

## Argymhellion ar gyfer gweithredu

- Cryfhau gallu arwain i ddarparu goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol cynaledig
- Sicrhau bod yr ysgol wedi'i staffio'n llawn ag athrawon sy'n meddu ar gymwysterau priodol i gefnogi cyflwyno cwricwlwm llawn
- Ymgorffori a gwerthuso effaith y cwricwlwm a'r fframweithiau asesu newydd
- Parhau i fireinio a gweithredu polisïau a gweithdrefnau allweddol i sicrhau cysondeb ac effeithiolrwydd tymor hir

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ni ystyriwyd y safon hon yn ystod yr ymweliad hwn.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Ni ystyriwyd y safon hon yn ystod yr ymweliad hwn.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ni ystyriwyd y safon hon yn ystod yr ymweliad hwn.

### Darparu gwybodaeth

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/04/2025